NEWYDDION TEULU A CHYHOEDDIADAU

Y SULIAU NESAF

Tachwedd 30:
Cerdd, Cân a Delwedd
dan ofal Glenys M. Roberts
Llywydd: Helen Prosser
Taflen: Ros Evans; Sgrin: Mal Pate

Rhagfyr 7:
Oedfa Ardal Groesfaen a Creigiau
Taflen: Dafydd Roberts
Sgrin: Huw Herbert

Rhagfyr 14:
Gwasanaeth Nadolig
Yr Ysgol Sul
Taflen: Nia Williams
Sgrin: Dafydd Roberts

CYLCH CADWGAN

Nos Wener
Tachwedd 21ain

CATRIN DAFYDD
8.00pm. Festri Bethlehem
Gwaelod-y-garth

CASGLIAD TESCO

Diolch i'r criw a gynigiodd helpu Banc Bwyd Pontyclun drwy dderbyn nwyddau gan gwsmeriaid yn Tesco. Os oes rhywun am ychwanegu eu henw i wneud shifft ddydd Iau, ddydd Gwener neu ddydd Sadwrn nesaf, cysylltwch ag ann.pentyrch@btinternet.com 029 20 891344 Yn y cyfamser, daliwch i gefnogi'r banc bwyd yn y capel - blwch tu ôl i'r organ.

CETRIS INC

Rydym yn ail ddechrau casglu cetris inc ar gyfer Cymorth Cristnogol. Croeso i chi eu gadael yn y blwch yn y cyntedd, ond DIM cetrys Epson. Diolch yn fawr.

HAMPERI NADOLIG

Cofiwch am yr hamperi Nadolig i bobl ifanc sy'n sefydlu cartref am y tro cyntaf yn yr ardal. Pethau 'bob dydd' mewn tuniau neu bacedi sydd eu hangen - dim byd rhy ffansi. Mae blwch ar gael yn y tu blaen.

MERCHED Y TABERNACL

Dydd Mercher, Rhagfyr 3ydd
Canolfan Arddio Pugh's am 10:30 i drafod rhaglen y flwyddyn nesaf.

CARDIAU NADOLIG

Dewis da ar werth gan Ann Rees

DILLAD PLANT

Mae wedi dod i sylw John Llewellyn Thomas bod angen dybryd yn y Gwasnaethau Cymdeithasol am ddillad plant o bob oed, o fabis i blant yn eu harddegau. Mae croeso i chi adael dillad addas, mewn bagiau duon, yn llofft y capel, a bydd y Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol yn sicrhau eu bod yn cyrraedd y lle iawn o fis Ionawr ymlaen.

YR AMLENNI BROWN

A ninnau'n prysur ddod at ddiwedd y flwyddyn, cofiwch wneud ymdrech arbennig i gyfrannu drwy'r amlenni brown yn ystod y Suliau nesaf.

Mae'r arian yn mynd at bump elusen leol: TRAVOL, Y Stafell Fyw, Hosbis George Thomas, Clefyd y Galon, a Rhaglen Trawsblannu Gwaed a Mêr Ysbyty'r Waun.

Rhowch yn hael os gwelwch yn dda.

Bydd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn syth wedi'r oedfa.

BOCSYS ESGIDIAU

Diolch i bawb am eu cefnogaeth i ymgyrch Operation Christmas Child yr Ysgol Sul.

www.tabernacl.org